Noveber issue_Layout 1 01/12/2016 11:36 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 38. RHIF 6 TACHWEDD 2016 50c

# LLWYDDIANT GOLFFWYR CYMRY LERPWL



*Chwaraewyr a chefnogwyr*

Llongyfarchiadau yn gyntaf i John Lyons am ennill Cystadleuaeth Golff 'Y Goleuad' wedi degawdau o gystadlu. John Williams oedd yn gydradd ail ond yn bell, bell tu ôl i'w gyfaill.


Llongyfarchiadau i Huw a Kath Lewis Jones am ennill pencampwriaethau y dynion a'r merched yn y trydydd Gystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl yng Nghlwb Woolton, Lerpwl. Mae'r ddau wedi ymddeol o fod yn feddygon yn gynharach eleni yn ac medru dilyn eu diddordeb yn teithio'r byd – a chwarae golff! Enillodd y ddau y wobr am y tîm gorau hefyd gyda'u cyfaill Dr. John Hussey, sef gŵr cyn Brif Swyddog Meddygaeth Cymru Ruth Hussey. Bu 21 yn cystadlu eleni a 44 yn gwledda gyda'r nos. Cafwyd raffl ac ocsiwn wedi'r bwyd a gwnaethpwyd elw o £900 sydd yn cael ei rannu rhwng *'Autistic Initiatives'* a *Chronfa Gŵyl Hedd Wyn*. Diolch i bawb am gefnogi y diwrnod.



***John Lyons - Cwpan y Goleuad***



***Brian Thomas yn cyflwyno gwobrau i'r tîm gorau Kath a Huw Lewis Jones, John Hussey***




***Ocsiwn – crys pêl-droed gwerthfawr (£200)***

## YN Y RHIFYN HWN:

**Golygyddol (Cofio Aber-fan). Cofio Dr. Essillt Thomas. Tudalen i Grafu Pen. Newyddion Bethel, Cymry Lerpwl, Seion, Bethania. Tudalen y Dysgwyr. Atgofion am Lerpwl 1961-66.**

Noveber issue_Layout 1 01/12/2016 11:36 Page 2

Golygyddol

# COFIO ABER-FAN gan D. Ben Rees

Y cof cyntaf sydd gennyf am bentref Aber-fan oedd pan fyddwn yn mynd i fugeilio neu gynnal oedfa yn ein capeli ni yno, a gweld y gwastraff o bwll glo Merthyr Vale yn cael ei gludo mewn bwcedi a godai i'r awyr ar weiren i Dip Rhif 7. Deuai i fy meddwl droeon ydy'r weiren yna yn ddiogel heb feddwl fod y gwastraff yn cael ei daflu ar wlybaniaeth a tarddiad ffynnon. Ond o'r weiren a'r gwastraff a'r tip y daeth y drychineb ar fore Gwener, 21 Hydref 1966.

Collwyd cenhedlaeth gyfan o blant y pentrefi, Aber-fan a Ynysowen. Yr oedd y gwasanaeth crefyddol boreol yn neuadd yr ysgol wedi dod i ben pan drawodd y llif drewllyd, budr, a chollwyd 116 o blant a 28 o oedolion am 9.15 o'r gloch y bore gwlyb hwnnw. Yr emyn a ganwyd yn y gwasanaeth oedd *"All things bright and beautiful"*. Petai'r gwasanaeth wedi gorffen rai munudau'n hwyrach, mae'n bosibl y byddai llai o blant wedi colli eu bywydau. Safai ystafelloedd y dosbarthiadau ar ochr yr Ysgol a wynebai'r mynydd a'r saith tip.

Cyrhaeddais yno yr un adeg a glowyr pwll Merthyr Vale ac o hynny ymlaen bu hi yn frwydr fawr i geisio dod o hyd i'r plant bach a'r athrawon, a threfnu fod capeli Bethania ac Aber-fan yn loches i'r rhai a gollwyd yn y damchwa.

Agorodd Aber-fan galonnau a haelioni'r byd. Ysgrifennwyd yn helaeth. Mynegodd y newyddiadurwyr eiriau wrth adfeilion yr ysgol a lluniodd y beirdd gerddi amrywiol i gysuro a choffau'r digwyddiad. Yr oedd hi yn Senghenydd arall. Yn 1913 ym mhwll glo Senghennydd collwyd 439 o ddynion a bechgyn, rhai o'r bechgyn mor ifanc a 14 oed. Ond plant oedd y mwyafrif yn Aber-fan, ac yr oedd y nifer yn fawr. A dyna pam fod Aber-fan yn rhan o'n cof fel cenedl a phawb ohonom wedi ei syfrdanu. Nid oes diwrnod yn mynd heibio na chaf fy atgoffa, pob tro y gwelaf blentyn neu ysgol neu pan fydd y glaw yn disgyn, pan welaf ddioddefaint plant Syria ac Irac, neu gweld tai teras cymoedd y De, fe ddaw fy mhrofiadau yn Aber-fan 50 mlynedd yn ôl yn fyw iawn i mi.

**Un o Ddarllenwyr yr Angor – yr ail yn y gyfres**

# MIKE FARNWORTH, ALLERTON

## Ailafael yn yr Iaith ar ôl Llawer o Genedlaethau

***Liverpool Welsh*** go iawn dw i, ond dw i ddim yn siŵr faint o genedlaethau.

Dw i'n gwybod bod fy hen hen dad-cu Peter Jones wedi byw yn Lerpwl. Priododd e fy hen hen fam-gu ym 1851 yn St Paul's Church, Toxteth. Saer llong oedd Peter Jones, yn ôl ei dystysgrif briodas, ac roedd ei dad John Jones yn saer llong hefyd. Dw i ddim yn gwybod ble oedd John Jones yn byw, yn anffodus, felly dw i ddim yn gwybod os dw i'n aelod o'r pumed genhedlaeth neu'r chweched genhedlaeth yn y ddinas.

Pan ô'n i'n blentyn bach doedd neb yn fy nheulu yn siarad Cymraeg, ond cofiodd fy Nhad-cu Jones hen berthnasau oedd wedi gallu siarad yr iaith amser maith yn ôl.

Wedyn, ar ôl lot mwy na chanrif, symudodd aelod o'r teulu i Gymru. Aeth fy merch Alice i Brifysgol Aberystwyth er mwyn astudio. Roedd hi'n wrth ei bodd gyda Chymru, felly doedd dim syndod pan benderfynodd hi chwilio am swydd yng Nghymru ar ôl graddio. Mae hi'n gweithio yn llyfrgell y brifysgol nawr.

Os i chi'n byw yng Nghymru – yn arbennig yn y gorllewin – mae'n rhaid i chi siarad yr iaith, wrth gwrs! Dechreuodd Alice ddysgu mewn dosbarth nos ym Mhrifysgol Aberystwyth, a phenderfynais i astudio yn Lerpwl gyda ***Say Something in Welsh*** ar y we, er mwyn ei chefnogi.

Dyn ni'n dod ymlaen yn dda. Mae Alice yn cael help gan ei chyfeillion sy'n siarad Cymraeg, a'i chydweithwyr. Dw i'n cael help ym Methel bob nos Lun gan bobol o'r capel a'r dysgwyr eraill.

O'r diwedd, am y tro cyntaf ers oes Victoria, mae 'na ddau ohonon ni yn y teulu sy'n siarad tipyn o Gymraeg gilydd. O bydded i'r hen iaith a'r papur broYr Angor barhau!


***Mike Farnworth***
***Diolch i Dr. Pat Williams am help gyda gramadeg.***



*Mike ac Alice yn Nant Gwrtheyrn*
*(Llun: Margaret Farnworth)*

# CORNEL Y TRYSORYDD

**Tachwedd 2016**



| | |
|---|---|
| Cyngor Llyfrau Cymraeg | £50.00 |
| Rhoddion er cof am Mrs Margaret E. Morris, Llanddanielfab trwy law ei mab y Parchedig John Morris | £200.00 |
| Mrs Gwenfyl Bain, Allerton | £20.00 |
| Mrs Nerys Vaughan Jones, Allerton | £20.00 |
| Mrs Eva James, Pwllheli | £20.00 |
| Mrs Eryl Lloyd Chitty, Gateacre | £20.00 |
| Mr a Mrs Brian Thomas, Mossley Hill | £20.00 |
| **Cyfanswm** | **£350.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Methodd un o'n ffyddloniaid ar hyd y blynyddoedd, Miss Iris Hughes Jones, Wallasey ddod atom i gynnal oedfa yn nechrau Medi ond buom yn ffodus o gael cyfraniad a gwasanaeth y Parchedig David Williams, Crosby, cynnyrch Capel Stanley Road, Bootle. Braf oedd gweld fod Mrs Elin Bryn Boyd, ein Trysorydd, wedi cael ei gwahodd i gychwyn cyfres newydd yn *Yr Angor* ar y Darllenwyr. Bydd hi gydag eraill yn brysur yn trefnu Gŵyl Hedd Wyn y misoedd nesaf hyn.

Llawenhawn yn fawr fod dwy o'n chwiorydd wedi cael ei cofio ar ddyddiau eu penblwydd, Miss Dorothy Williams, Blundellsands wedi cyrraedd yr oedran teg o 99 mlynedd a Miss Margaret Rowlands, fel cymaint eraill ymhlith Cymry'r Glannau wedi cyrraedd wyth deg mlynedd. Dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol agos. Bwriadwn gynnal ein Hoedfa Diolchgarwch ar fore Sul, 9 Hydref yn eglwys Crist. Cynhaliodd yr eglwys honno ei Diolchgarwch ar Sul, 25 Medi gan wisgo'r Eglwys gyda ffrwythau'r ardd a rhoddion ein cynhaliaeth.



*Bethan Gwanas, Nerys Vaughan Jones ac Eryl W. Jones*

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Dechreuodd tymor 2016/17 y Gymdeithas yng nghartref Mrs. Nan Hughes Parry. Cawsom groeso ganddi, digon o amser i siarad a digon i'w fwyta. Braf oedd gweld Louie Jones ac Elan Jones yn ôl yn ein plith. Diolch i Nan am baratoi ar ein cyfer ac am ei chroeso.

Y nos Fawrth ganlynol daeth Alun Pari Huws atom i sôn am fâd achub Llandudno. Cyn ymddeol 'roedd Alun yn gweithio yn y banc ond wedi ei ymddeoliad dilynodd ei ddiddordeb mewn hwylio drwy wirfoddoli gyda Bâd Achub Llandudno. Mae yn awr yn Ddirprwy Swyddog Lansio. Bu gan Alun ddiddordeb mewn hwylio ers ei arddegau wedi treulio gwyliau ym Môn a gweld bâd achub Caergybi yn dod i Fae Cemaes bob blwyddyn. Mae'r gwasanaeth bâd achub yn wasanaeth eang sydd yn cynnwys bod ar y môr a'r tir e.e. achub ar y môr a helpu pobl wedi eu dal mewn llifogydd. Gwirfoddolwyr yw'r rhan fwyaf o'r gweithwyr. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am 200 o achubwyr bywyd (Lifeguards) sydd ar y traethau o amgylch y wlad. Soniodd Alun am sawl math o gwch sydd yn cael eu defnyddio – yr 'All Weather' sef y rhai mwyaf a'r rhai llai ond cyflymach sy'n gweithio yn nes i'r lan. Mae cost y llongau hyn yn amrywio o £220,000 i dros £2 filiwn.

Sefydlwyd bâd achub Llandudno yn 1861 – mae'r cwch presennol yna ers 1996 ond mae cwch newydd yn dod cyn diwedd y flwyddyn. Dangosodd sawl darn o ffilm yn dangos gwaith y gwirfoddolwyr dewr. Ar diwedd ei sgwrs pwysleisiodd Alun bod rhaid i bawb barchu dŵr am ei fod yn beth mor bwerus.

Ar nos Fawrth Medi 27ain daeth Bethan Gwanas atom i sôn am ei llyfrau. Mae



*Bwyd yng nghyfarfod cyntaf Cymdeithas Cymry Lerpwl*



*Alun Pari Huws a Roderick Owen*

Noveber issue_Layout 1 01/12/2016 11:36 Page 4

Bethan yn awdur toreithiog ac wedi bod yn ddarllenydd brwd ers yn blentyn yn yr ysgol gynradd. Ei hoff lyfrau oedd rhai Enid Blyton! Roedd hefyd yn hoff iawn o ysgrifennu hanesion yn yr ysgol. Ym 1985 enillodd Goron Eisteddfod yr Urdd, pan oedd yn athrawes Saesneg gyda VSO yn Nigeria. Sylweddololodd y pryd hynny y buasai yn medru gwneud gyrfa o ysgrifennu. Gweithiodd fel athrawes, dirprwy bennaeth Gwersyll yr Urdd Glan-Llyn a hyrwyddwr llenyddiaeth i Gyngor Gwynedd cyn penderfynu bod yn awdures llawn amser yn 2003. Ysgrifennodd y llyfr poblogaidd '*Amdani*' yn 1997 sydd yn sôn am dîm rygbi merched a daeth y llyfr yn gyfres boblogaidd ar S4C. Fe anogwyd hi i ysgrifennu nofelau i bobl ifanc yn eu harddegau a bu rhain yn llwyddiant hefyd e.e. 'Llinyn Trôns' (2000) sydd yn rhan o faes llafur TGAU, 'Pen Dafad' (2005) sydd hefyd wedi ei drosi i Saesneg. Ei nôd yw cyrraedd y rhai sydd ddim wedi arfer darllen llyfrau. Mae hi wedi cyhoeddi 28 o lyfrau gyda amrywiol themau yn cynnwys teithio, hanesion ffantasi a llyfrau ffeithiol. Mae wedi ennill gwobr Tir na n-Og ddwywaith a hi oedd enillydd cyntaf Gwobr T. Llew Jones yn 2013. Roedd hi'n braf cael cipolwg ar waith a hanes un o'n hawduron mwyaf poblogaidd yng Nghymru.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Gobeithio i chwi i gyd fwynhau yr haf bach Mihangel go iawn a gawsom yn ystod y mis, a'r tymheredd y tu hwnt i bob disgwyliad.

Cafwyd oedfa arbennig ar y Sul cyntaf o'r mis o dan ofal ein gweinidog, y Parchedig Ddr. D. Ben Rees pryd y gweinyddiwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

Derbyniwyd Mr. Eryl Wyn Jones, Woolton yn gyflawn aelod. Mae yn un ohonom ers tro a gwerthfawrogwn ei ffyddlondeb a'i gyfraniad. Croesawyd hefyd y Parch John Morris a'i fab Rhys o Llanddaniel Fab. Derbyniwyd rhodd i'r eglwys er cof am ei fam, un o Gymry Lerpwl. Braf oedd eu gweld a diolchwn am y cysylltiad ac am fywyd a gwaith ei fam.

Anfonwn ein dymuniadau gorau fel eglwys at Dafydd Llewelyn Rees a Kate McAndrew ar eu priodas y degfed o Fedi yng nghapel Cymraeg Jewin, Llundain. Roedd y gwasanaeth yng ngofal gweinidog yr Eglwys, Parch Richard Brunt, a seremoni'r briodas gan dad y priodfab y Parchedig Ddr. D. Ben Rees. Cafwyd darlleniadau gan y ddwy fam, yn Gymraeg gan Mrs Meinwen Rees ac yn Saesneg gan Mrs Eileen McAndrew. Yr organydd oedd y Parch Robert Nicholls, Castle Street a chafwyd cyfraniad gan Gôr Meibion Gwalia, cyn y gwasanaeth ac yn ystod llofnodi y cofrestru.



***Tîm Buddugol***

Ar y pedwerydd ar bymtheg o Fedi roedd hi'n noson agoriadol o'r Gymdeithas Lenyddol ac fel ein harfer – noson o gwis gan Anne Jones ac Eryl Dooling yn llywyddu.

Cafwyd pedwar tîm ac yn fuddugol eleni daeth tîm Margaret Anwyl Williams. Diolch i Anne am noson hwyliog, i Gwerfyl Bain a Carys Jones am yr arlwy a chwmni'r dysgwyr uwchben paned o de.

Bu i dair chwaer o'r eglwys ddathlu penblwydd arbennig iawn, yr efeilliaid Joyce Lewington a Delyth Morris a hefyd Mair Powell. Hir oes a dedwyddwch i chi i'r dyfodol a diolch i chi eich tair am eich cyfraniad gwerthfawr i waith yr eglwys ar hyd y blynyddoedd.

Ein llongyfarchiadau hefyd i Allan a Margaret Anwyl Williams, Allerton ac ddod yn daid a nain.

Ar y nos Lun olaf o'r mis cafwyd arweiniad gan ein gweinidog ar y gyfrol *Duw yw'r Broblem* o waith Aled Jones Williams a Cynog Dafis. Agorwyd y cyfarfod trwy weddi ac yna darllenodd Dr. D. Ben Rees rannau o waith Aled Jones Willams i ni eu trafod o dan y pennawd Anghrediniaeth. Rydym yn byw mewn oes angrhediniol. Sut mae gwneud Duw yn ddealladwy i'r oes yr ydym ni yn byw ynddo yw'r cwestiwn anodd. Mae



***Anne M. Jones***



***Tîm Meirion Evans***

enw ac ystyr Duw yn ddieithr i'n hoes ac mae llawer o adweithio a threisio yn erbyn crefydd pe bai ni ond yn edrych ar Syria heddiw. Dyma ddatganiad o eiddo'r awdur "Mae'n amhosibl i mi fod yn anffyddiwr fel y mae'n amhosibl i mi beidio â siarad Cymraeg". Bu pawb yn rhydd eu trafodaeth ac mae'n fuddiol i ni fedru mynegi ein barn ar bynciau sy'n ymwneud â'n bywyd ysbrydol. Diolch i'n gweinidog am roi y cyfle i ni ac i gymaint ohonom ddod ynghyd i drafod materion o ddifrif. Fe gawn sesiwn eto ar gyfraniad Cynog Dafis ar Nos Lun, 31 Hydref am 7.30 o'r gloch, croeso i bawb sydd chwedl Tom Nefyn Williams ar yr 'Ymchwil' o hanfon ein gwerthoedd.

Ein llongyfarchiadau i Richard Jones (Tŷ Capel gynt) Hwlffordd, ar ei arddangosfa o'i waith celf ym Moma, Machynlleth yn ystod mis Medi.

Mae yn creu celf o froc o wneuthuriad dyn a gribiniwyd o'r traeth. Mae'n harddwch megis ffenics yn codi o wastraff a rhoddir ystyr i ddiffyg canlyniad bywyd modern. Roedd canmoliaeth mawr i'w waith. Braf oedd i Elan Jones ei fam a Sonia ei chwaer allu mynd yno i werthfawrogi ei waith ynghyd â'r teulu a llawer iawn o'i gyfeillion o Sir Benfro.

Anfonwn fel eglwys ein cofion annwyl at y rhai ohonoch sy'n methu â mynychu'r oedfaon fel cynt. Diolch am eich diddordeb o hyd a gwerthfawrogwn hynny.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Hyfryd oedd cael croesawu y Parchedig W. Gareth Edwards o Deganwy atom ar ddiwedd Awst. Y mae ganddo gysylltiadau â ni fel eglwys gan fod ein blaenor, Mrs Morfydd Williams, Moreton yn berthynas iddo. Gwerthfawrogwn y gofal amdanom o Sul i Sul. Anfonwn ein cofion fel eglwys at Mrs Delyth Horsley, un o blant yr eglwys a merch i Mrs Mair Rees Jones, sydd yn anhwylus ar hyn o bryd. Y mae hi bob amser yn cefnogi y gweithgareddau sydd yn digwydd ar lannau Mersi a meddyliwn amdani hi a'i hanwyliaid y dyddiau hyn.

Hyfryd oedd cael cwmni aelodau o gapel Tabernacl, Rhuthun yn yr oedfa yn Seion ar bnawn Sul, Medi 11eg. Roedd Mr. Emrys Wynne wedi trefnu pererindod i dros dri deg o aelodau i ddod i'r Wirral. Cyn dod i gapel Seion roeddynt wedi ymweld â Lady Lever Art Gallery a Parc Birkenhead. Yn y parc yr oeddynt wedi gweld y plac i goffáu Hedd Wyn ac wedi mwynhau picnic yn yr awyr iach. Wedi'r oedfa fendithiol oedd dan ofal y Parch Dr. E. Wynne Parry cafwyd lluniaeth ysgafn yn y Neuadd ac aelodau y ddwy eglwys yn sgwrsio a rhai yn cyfarfod hen ffrindiau ac eraill yn gwneud ffrindiau newydd.



*Y Pererinion o Ddyffryn Clwyd*

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Agorwyd ein tymor 2016-2017 ar nos Lun Medi 19eg ar nodyn trist wedi inni golli pedwar o aelodau ffyddlon a gweithgar, yn ystod yr haf. Oherwydd gwaeledd Mr Merfyn Williams, ein llywydd etholedig, llywydd y noson oedd Mrs Iola Edwards. Cyfeiriodd at y pedwar cyfaill ymadawedig, Mrs Margaret Jones, Mrs Gwyneth Thomas, y Parch Glanville Rees, a Dr Essillt Thomas, gan ddiolch am gael eu hadnabod a gwerthfawrogi eu cyfraniad a'u cwmni.

Mr Michael Lloyd Jones, Pwllheli – yn hytrach, Mici Plwm, oedd ein gwestai a chanddo cawsom noson o atgofion, arturiaethau a helyntion allan o'r gist lle y casglodd bob math o gofebion o bob ran o'r byd – yn cynnwys Ynys Enlli, y Wladfa, India, Pakistan a Burma. Gyda phob teclyn daeth hanes doniol, diddorol, a brawychus i'n diddanu.

Ganwyd Mici yn Llan Festiniog a chafodd ei addysg yn y cylch. Yn y chwedegau cafodd ei ysbrydoli gan Gymdeithas yr Iaith i ddechrau'r Disco Cymraeg cyntaf – dyna greu yr enw Mici Plwm. Ymwelodd Disco Teithiol Mici Plwm a chlybiau a neuaddau pentref trwy Gymru am ugain mlynedd gan rannu llwyfan gyda amryw o fandiau Cymreig. Mae byd pop Cymreig yn ddyledus iawn i Mici Plwm. Daeth yn enwog yn y saith-degau am chwarae rhan Plwmsan ar deledu plant. Bu'n Gyfarwyddwr Artistig Theatr Ardudwy, Harlech rhwng 2002/2004. Dyma ŵr sy'n adnabyddus drwy Gymru fel actor, diddanwr, awdur, cyflwynydd, a chyfarwyddwr radio a theledu, ac fel rheolwr grwpiau roc a chanu gwerin.

Dim syndod felly inni fwynhau noson amrywiol amlochrog a hwyliog. Gwnaed y diolchiadau gan Mrs Eirwen Sargent. Terry oedd yn cyfeilio, a'r pwyllgor a ofalodd am y te.

**Ysgrif Goffa**

## Dr. Essillt Thomas, West Kirby (1935-2016)

**Wedi gwaeledd hir, bu farw ein annwyl chwaer ac aelod ffyddlon, Dr Essillt Thomas, ar Awst 7fed, a bu'r arwyl yn Landican ar Awst 30ain, dan arweiniad y Parch Victor Edwards sy'n ddysgwr gyda Tom Thomas, gŵr Essillt. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf ato ef a'i deulu yn eu colled.**

**Plant cymoedd y De, oedd Essillt a Tom, yn hannu o Ystalyfera ac yn yr ysgol Ramadeg yno, dechreuodd eu carwriaeth yn eu harddegau. Daeth Essillt i Lerpwl yn 1952 i astudio meddygaeth, ac fe lywyddodd Tom i gyflawni ei Wasanaeth Cenedlaethol yng Nghaer ar y un pryd. Ewythr Tom, gweinidog gyda'r Bedyddwyr a wasanaethodd yn eu priodas yn Blaendulais yn Rhagfyr 1959.**

**Gweinyddodd Essillt mewn amryw o ysbytai yn ardal Lerpwl, tra'n cwblhau ei chwrs, cyn derbyn swydd fel meddysg ysgol yn Sir Worcester. Wedi hynny bu'n feddyg teulu am ddeg mlynedd ar hugain yn yr ardal. Bellach roedd Tom yn athro yn Birmingham, ac yno y seflydlwyd y teulu. Ond 'roedd eu gwreiddiau Cymraeg yn gryf a daethant yn flaenllaw yng Nghymdeithas Cymraeg, Reddich am flynyddoedd.**

**Wedi ymddeol daethant i fyw i West Kirby, yn ymyl eu mab Dr Glyn Thomas, arbenigwr yn Arrowe Park, a'i deulu. Cawsant fwynhau llawer o deithiau, dros yr U.D. ac yn arbennig i Awstralia at eu mab Alun a'i deulu. Daethant yn aelodau gweithgar yng Nghymdeithas Cymry, Birkenhead.**

**Ar ddechrau y gwasanaeth yn Landican, clywsom ddetholiad gan seindorf arian – teyrnged i gariad Essillt at y gerddoriaeth hudolus hwn. Roedd ei thad-cu yn arweinydd band pres enwog Ystalyfera ac roedd Essillt wrth ei bodd yn beirniadu'n ddeallus pan glywodd unryw fand pres yn chwarae. Yn sŵn alawon ac emynau Cymraeg ffarweliodd y teulu a chynulleidfa fawr o gyfeillion ymhell ac agos, a merch annwyl, hoffus a galluog.**

*Eirwen Sargent*

# TUDALEN I GRAFU PEN

## O DAN OFAL KEN WILLIAMS

(atebion ar dudalen 13)

## PWY YDYNT?

1. “Dim Person” yn unig yw hwn, ond un o’r dwsin arbennig (5,4)
2. “Drama Angel i’m” feddwl am wraig oedd yn adnabod yr uchod (4,8)
3. “Tad Llyfn” yn siwr; hefyd yn fardd/emynydd C.Ff. 283 (7)
4. “Beth ar gael” yma, ond y pêl-droediwr gore! (5,4)
5. “Taw di, nes” wedi iddo newid, a’i sancteiddio (4,4)

## CANEUON CYMRU – PA RAI?

1. “Bod dy hen radio” yn rhoddi enw ‘Siân Fwyn’ ‘a wnaeth fi’n foel a thithau’n felyn! (3-1-4-5)
2. “Ydych, un o’m” cwmni trist ‘Mae yma alar calon’ (1-5-2)
3. “Wel Hela’n bod yw” yr hint orau i’r ddau yma (5-1-7)
4. “A fydd ar gred gwen y” modd i ganu’r dôn a ‘llais angel’ a’r delyn yn chware (5-1-6-3)
5. “Cae dy hedd, dyro i” ni ehedeg fel yr aderyn hwn i glywed ‘ei alawon o uchel le’ (6-2-6)

## BLE’R YDYM?

1. “O ble cawn y” map i’n cludo yma? (3,6)
2. “Tra’n llwyd” fy ysbryd; dod yma i gael iachâd (8)
3. “Genwyd â’n” codwyd yma (8)
4. “Aer da, bron” yn ormod i ni aros yma! (9)
5. “O’n dull dan” sylw, ddaw a ni i ‘Berl y Gogledd’ (8)

| | | |
|---|---|---|
| D | O | D |
| A | R | F |
| N | A | G |

## GWNEUD GEIRIAU

O’r llythrennau yn y bocs gwnewch allan eiriau yn cynnwys pedair llythyren a mwy. Mae yma un gair yn cynnwys y naw; hint fechan “Dod i’r golwg”. Y targed 30. Y llythrennau i’w defnyddio unwaith yn unig.

## GAIR AM AIR

**TROEDIODIOGELYNOENWYDLAN**

Gwnewch i fyny eiriau yn cynnwys TAIR LLYTHYREN a mwy i redeg yn union ar ôl ei gilydd. e.e. TRO OED TROED … Mae yna 18

# TUDALEN Y DYSGWYR

**gan y Golygydd**

***Diolch am y neges a ddaeth y dydd o'r blaen oddi wrth ddysgwr o ardal Southport yn diolch am dudalen y Dysgwyr yn y papur bro, Yr Angor.***

**Y Dasg gyntaf y tro hwn yw LLENWI Y BYLCHAU yn y darn canlynol o waith Dyfnallt Morgan, Bangor, ffrind bore oes i mi.**

## TASG 1 - LLENWI'R BYLCHAU

**Buasai'r Comiwnyddion yn gwrthwynebu …………… o'r dechrau'n deg.**
**Yn wir, pryderai'r Cadfridog yn fwy o'u plegid hwy o 1931 nag oblegid y ……………………**
**Dyma gyfrinach eu llwyddiant hwy o 1931 ymlaen wrth ……………… China.**
**Gorfu i Chiang a Mao ……………… rhagddynt.**
**Y mae gwaith Moa Tse-tung yn …………………… ei Fyddin Goch ………… mil o……………… mewn blwyddyn (1934-35) o Kiangsi yn y de i Yenan yn y gogledd-orllewin yn un o ………… mawr hanes.**
**Dim ond rhyw bumed ran o'r ………… hon, allan o 90,000 gwreiddiol, a ………………Yenan.**
**Eto hi oedd gwir lais ……………… China rhwng 1935 a 1945.**

**Dyma'r geiriau coll i lenwi'r bylchau**

**1, Japaneaid (*Japanese*);**
**2, oresgyn (*overcome*);**
**3, Chiang kai-shek;**
**4, ffoi (*escape*);**
**5, chwe (*six*);**
**6, filltiroedd (*miles*);**
**7, ddigwyddiadau (*events*);**
**8, fyddin (*army*);**
**9, gyrhaeddodd (*arrived*);**
**10, cenedlaetholdeb (*nationalism*).**

---

## TASG 2. LLUNIO BRAWDDEGAU

**Ysgrifennwch deg llinell a'r geiriau isod yn y llinellau hyn.**

**1) poced o Gomiwnyddion *(pocket of Communists).***
**2) gorsaf o genhadon Presbyteraidd**
***(station of Presbyterian missionaries)***
**3) muriau'r orsaf *(the walls of the station)***
**4) diffyg cyfleusterau *(lack of facilities)***
**5) meddyg da *(good doctor)***
**6) Colera *(colera)***
**7) newydd-ddyfodiaid (*newcomers*)**
**8) rhoi halen *(giving salt)***
**9) nyrsio (*nursing*)**
**10) Trên (*train*).**

## TASG 3

**(o'r cylchgrawn *Golwg*, 25 Mai 1995)**
**Llenwch y bylchau yn y darn canlynol.**
**Dim help y tro hwn! Dim geiriau ond eich geiriau chwi!**

**Ar ôl i'r Cwricwlwm Cenedlaethol ddweud bod rhaid i blant dall ddysgu Cymraeg a Saesneg, penderfynodd swyddogion yn y maes weithredu ac eisioes mae llyfrau wedi …………………(1) datblygu sy'n caniatáu plant dall i ddilyn straeon yn y stafell ddosbarth yr un pryd â phlant ………… (2), gyda dalen glir o …………… (3) wedi ei gosod dros y tudalennau …………… (4).**
**Cyn bo hir, mae gobaith y bydd rhaglen gyfiawnder wedi ei datblygu i droi llyfrau yn Braille ac, yn ôl un …………… (5) aelodau'r pwyllgor …………… (6) helpodd ddatblygu'r system newydd, mae'r datblygiad …………… (7) un cyffrous.**

---

## HELP I'R DYSGWYR. GWEFANNAU O DDIDDORDEB I DDYSGWYR CYMRAEG

**1. www.bbc.co.uk/wales/catchphrase**
Cwrs dysgu Cymraeg ac adnoddau.

**2. www.bbc.co.uk/wales/colinandcumberland**
Ffordd animeiddiedig o ddysgu Cymraeg!
Fersiwn de a gogledd.

**3. www.bbc.co.uk/cymru/ieithgi**
Gemau iaith.

**4. www.S4C.co.uk**
Gwybodaeth am raglenni sy'n addas i ddysgwyr ynghyd â gwybodaeth am gymorth ychwanegol i ddysgwyr.

**5. www.cs.brown.edu/fun/welsh**
For real beginners. Cwrs Cymraeg gan Mark Nodine ar gyfer dechreuwyr pur. Taflenni gwaith Cymraeg a dolenni i adnoddau ar-lein ar gyfer dysgwyr.

**6. www.meddal.com**
Meddalwedd Cymraeg.

**7. www.geiriadur.net**
Geiriadur-ar-lein Cymraeg.

**8. https:/www.saysomethingin.com/welsh/course1**
Podcastiau dysgu Cymraeg.

**9. www.welshbaccalaureate.org.uk/**
Gwybodaeth am arholiadau Cymraeg i oedolion.

**10. www.cymraegioedolion.org**
Gwefan Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymraeg i oedolion.

Noveber issue_Layout 1 01/12/2016 11:36 Page 8

# Llongyfarchiadau Beti, B.E.M.

Mae Mrs Beti Moyle, Pentraeth, Môn wedi cael ei anrhydeddu am ei chyfraniad hir ac anrhydeddus ym myd nyrsio, trwy dderbyn Medal yr Ymherodraeth Brydeinig yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines am ei gwasanaeth am 51 mlynedd.

Un o ferched Cymry Lerpwl ydyw a'i phriod David Moyle o Benbedw. Merch Mr a Mrs Trevor Williams, Whitland Road ydyw ac fe'i magwyd yng nghapel Cymraeg Edge Lane. Dechreuodd ar ei gyrfa yn 1961 yn Ysbyty Mill Road, ac yna symud i Ysbyty'r Plant, Alder Hey. Ar ôl genedigaeth ei dwy ferch, Ann a Ruth, aeth yn ôl i weini yn Ysbyty'r Southern. Cofir yn dda iddynt ddewis symud i fyw i Fôn yn 1978 a chafodd ei apwyntio i Ysbyty C and A, Bangor gan symud yn 1984 i Ysbyty Gwynedd ym Mhenrhosgarnedd. Deil i nyrsio, er ei bod dros oedran ymddeol, 18 awr yr wythnos am ei bod mor ymroddedig ac wrth ei bodd yn Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd. Dymuniadau gorau gan Olygydd a Phwyllgor Gwaith *Yr Angor*.



***Roderick Owen***
***D. Ben Rees***

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2016. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*

- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Rhagfyr 2016/Ionawr 2017 –** erbyn pnawn Sul, 30 Hydref, 2016 – neu ar y we i benatgarthdrive@ talktalk.net neu ben@garthdrive.fsnet.co.uk

**ii) Rhifyn Chwefror 2017** erbyn bore Sul, 1 Ionawr, 2017 – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc.

**iii) Rhifyn Mawrth 2017 –** erbyn bore Llun, 1 Chwefror, 2017 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn y pnawn hwnnw – 1/2/2017.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

- **Cyfarfod nesaf Pwyllgor Gwaith Yr Angor** – ar y ffôn, 16 Ionawr, 2017.


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

Myfyrdod

# SUL Y COFIO 2016 - gan Elwyn Parry

Mae'n fis Tachwedd unwaith eto a Sul y Cofio wrth y drws. Sut r'ydych chi'n teimlo? Ydy'r cof yr adeg yma yn felltith neu'n fendith? Oes deigryn yn dod?

Sut bynnag mae'r cof gyda ni ac fel y dywedodd Tennyson a buasem yn cytuno ag ef – "Y goron yw cofio dyddiau dedwyddach ond ni fuaswn heb fy atgofion boed iddynt fod yn ddedwydd neu'n ddiflas." Fel yr heneiddiwn mae bywyd yn mynd yn fater o atgofion onid yw? Mae gan y proffwyd Jeremiah eiriau sy'n her. Teimlaf y dylem gofio ei eiriau ar Sul y Cofio sef – "Y rhai a ddiangcosoch gan y cleddyf: ewch ymaith, na sefwch: yr Arglwydd o bell, a deued Jeriwsalem yn eich cof chwi (yn sicr medddylia'r proffwyd am y deml)." Credaf bod y geiriau yn her inni i gofio'n ddiolchgar am y ddihangfa a gawsom, ac am y rhai a safodd rhyngom a'r gwaethaf. Yn wir, anwyliaid, O na allwn anghofio'r rhyfeloedd heb anghofio'r aberth.

Y mae, hefyd, pethau eraill y dylem gofio ar Sul y Cofio. Daw adegau yn ein bywyd lle gwelir dioddefaint, ac hefyd blynyddoedd y gymdogaeth dda. Efallai buddiol yn awr troi ein golygon a cheisio cael hyd i fyd gwell. Ceisio creu byd y bydd rhyfeloedd yn amhosibl ynddo a lle na ddysgir rhyfela mwyach. Daw geiriau Iago yn ôl i mi – "O ba le mae rhyfeloedd ac ymladdau yn eich plith chwi? Nid at gariad ac uniondeb ond eich melus-chwantau a chwantau pechadurus y meddwl". Cofiwch yr Arglwydd.

Amdanaf fy hun – milwr bychan ydwyf – ond yn wir buaswn yn hoffi gweld terfyn ar lawer o'r crochlefain militaraidd. Cofio'n ddistaw mewn dealltwriaeth. Cydymdeimlad at teuluoedd y rhai a gollodd – hufen cenhedlaeth, hogiau a merched annwyl gyda diolch a chymell yn ein dagrau i droi at yr Un sydd "wrth law o hyd i wrando cri" gyda chariad tyner a thangnefeddus.

Whittier a ddywedodd "We cannot drift BEYOND God's care". Mae llawer un wedi gofyn oedd y rhai a gollwyd yn werth yr aberth ac eraill am ofyn a ydym ni yn werth yr aberth y rhai a gollwyd drosom? Yn y diwedd rydw'n ymwybodol bob munud o'm hoes am UN a roddodd Ei fywyd dros eraill, dros ryddid o bechod a marwolaeth. Tybed fel milwr bychan caf ymuno â'i fyddin Ef?


***I ymladd dros fy Arglwydd***<br>
***Yn ffyddlon hyd fy medd.***

<u>*Gwron y Freuddwyd*</u>

# Gair am Martin Luther King (1923-1968)

### *gan Clustfeiniwr*

Gwerthfawrogiad sydd gennyf o raglen deledu ardderchog a welais dro'n ôl a gyflwynwyd gan Dr Oona King, a gollodd ei sedd yn Bethnal Green fel Aelod Seneddol Llafur i'r bwli gwleidyddol George Galloway yn Etholiad Cyffredinol 2005. Ei thestun oedd Martin Luther King a'i Wreiddiau Crefyddol. Dywedodd hi yn reit glir fod tuedd inni heddiw anghofio mai gŵr y goler gron oedd Matin Luther King ac nid gwleidydd proffesiynol. Roedd ei dad a'i dad-cu yn weinidogion gyda'r Bedyddwyr.



Gwelsom ef yn weinidog Eglwys Bedyddwyr Dexter Avenue yn Montgomery, Alabama, ac yn sefydlu Cynhadledd Arweiniad Cristnogol y De (SCLC) ym 1957 ac yn barod i arwain y crwsâd. Gwelsom luniau ohono yn ymgyrchu dros hawliau ei gyd-frodorion o'r gymuned Affricanaidd-Americanaidd, ac fel y datblygodd o'i ddealltwriaeth o ddiwinyddiaeth y ffordd ddi-drais yn arweinydd cwbl unigryw. Yfodd o ffynnon Mahatma Gandhi a gofalodd gadw llu o bobl groenddu ar lwybr di-drais yn hytrach na chael eu dallu gan huodledd treisiol Malcolm X.

Datblygodd yn wrthwynebydd i Ryfel Fietnam, ef a'i briod Corretta Scott King, a daeth llu o weinidogion i'w gefnogi. Heddiw ef yw un o heddychwyr pennaf yr ugeinfed ganrif yn ôl yr haneswyr. Ond fel pawb sydd yn fawr, ni adawodd i un peth ddod rhyngddo a'i uchel alwedigaeth i fod yn weinidog i'r Arglwydd Iesu. Fel y dywedodd un o'n beirdd Cymraeg amdano:

*Mae gen i freuddwyd am y wlad*<br>
*Lle bydd cariad yno,*<br>
*Lle na fydd dicter mwy, na llid,*<br>
*Lle na fydd neb yn wylo.*

Ond wylo bu'n rhaid a hynny ar 4 Ebrill 1968 yn Memphis, Tennessee pan feiddiodd y dyhiryn James Earl Ray ddiffodd fflam bywyd y gwron a elwid, ar ôl arloeswr y Diwygiad Protestannaidd. Gadawodd waddol da ar ei ôl ac esiampl i'w efelychu yn y Gymru gyfoes.

# ATGOFION AM LERPWL 1961-66

## *gan Gareth Pritchard, Llandudno.*

**Mis Medi, 1961, oedd hi pan ddechreuais ar fy ngyrfa fel athro yn Ysgol Iau Prince Rupert, Whitefield Road. Wn i ddim sut y cafodd y stryd yr enw gan nad oedd dim llain gwyrdd, na fawr o liw gwyn o gwmpas! Sylw cyntaf un o'r athrawon oedd na chawn fy mhoeni gan ddefaid yno!**

Ble 'roedd yr ysgol? Rhwng West Derby Road a Breck Road. Yn dibynnu pa ffordd 'roedd y gwynt yn chwythu, fe gaech un ai arogl mwg baco o ffatri Ogdens neu arogl melysion Barker and Dobson oedd hefyd â ffatri fawr yn yr ardal. 'Roedd ysgol ar gyfer babanod hollol ar wahân ar y llawr gwaelod a ninnau, gyda rhyw 450 o ddisgyblion, ar y llawr cyntaf ac 'roedd adeilad arall ar gyfer disgyblion Blwyddyn 4 mewn stryd gyfagos, drws nesaf i swyddfeydd Barker and Dobson. Ond, er bod gen i ddosbarth o 36 o blant 7 -8 oed (a'r flwyddyn wedyn gyda 45) 'roeddwn yn hapus iawn yno gyda bron i hanner yr athrawon yn siarad Cymraeg – Olive Roberts o Lanrug, Nance Williams o Gaernarfon, Eileen Williams o Ynys Môn a Keith Williams o Langefni ac eraill yn ddisgynyddion oedd yn deall tipyn go lew o Gymraeg. Mae'n debyg ein bod braidd yn 'ddifanars' yn siarad Cymraeg gyda'n gilydd oherwydd ar ôl bod yno am rhyw dair wythnos, fe ddywedodd y ddirprwy, yn ddigon sarcastig, *"So you can speak English then!"* Yn yr ysgol babanod, lawr grisiau, 'roedd Cymraes arall, Louie Jones o Garmel (gweddw Humphrey Wyn Jones).

'Roedd pwyslais mawr ar ddysgu nofio yn yr ysgol, ond 'roedd yn rhaid cerdded hefo'r plant drwy'r strydoedd cefn i Bwll Nofio Margaret Street. Braidd yn gyntefig oedd hi yno, ond y broblem fwyaf fyddai cael rhai o'r plant yn ddigon glân i fynd i'r dŵr, yn enwedig ar ôl gwyliau'r haf. Treuliai ambell un bron i wers gyfan o dan y gawod. Hefyd, 'roedd bri ar chwaraeon, ond eto, ar gyfer pêl-droed, rhaid oedd cerdded hefo'r plant i Barc Newsham. Yn ddiweddarach, caem ein cludo gryn bellter i Dwerryhouse Lane. Gyda dau dîm pêl-droed, a finnau'n ifanc (!!) cawn fy nghadw'n brysur hefo'r timau, ac ar y gwasanaeth cyhoeddus y teithiem o le i le. Cofiaf gyrraedd un o'r caeau ger Townsend Lane un tro ac un o'r hogiau ar frys i fynd i'r toiled. Gwelwn ei fod yn anelu am un y merched, a gofynnais i ble 'roedd yn mynd? Yr ateb gefais, *"To the laddies!"*

Pan oedd un athro ar dyletswydd yn yr iard daeth geneth ato a chynnig rhyw fisgedi siocled oedd ganddi. Gwrthododd yr athro ond 'roedd yr eneth yn mynnu gan ddweud bod ganddi fwy na digon gan bod ei chwaer yn dod â hwy gartref o'r ffatri yn ei dillad isaf!




***Kemlyn Road, Kop***

I ddangos sut mae pethau wedi newid mewn ysgolion ers y dyddiau hynny, y prifathro, Albert Cain, gŵr hynaws o Ynys Manaw, fyddai'r cyntaf i adael yr adeilad bob dydd! Safai ar ben y grisiau am 4y.p. gyda'r *Daily Post* yn un llaw a chwib yn y llall. Chwythai'r chwib cyn diflannu i lawr y grisiau ac anelu am Ysgol Gwladys Street (ger Cae Everton) i godi ei wraig oedd yn brifathrawes yno. Credai bod unrhyw un oedd yn mynd â gwaith ysgol gartref hefo fo yn hanner call! Ei dri phwynt ar gyfer bod yn athro da oedd 1. cyrraedd yr ysgol erbyn chwarter i naw (i yfed te ran amlaf!), 2. bod eich dosbarth yn ddistaw ac yn drydydd cadw cofrestr taclus!

Problem fawr oedd chwilio am le addas i fyw. Perswadiwyd fi i rannu ystafell gyda chefnder yn Old Swan, ond ar ôl tair wythnos yno wedi 'laru ar wrando ar Radio Luxembourg hyd berfeddion nos, bûm yn ddigon ffodus i gael lle yn 5 Kemlyn Road, Anfield. 'Roedd y tŷ gefn yn gefn â chae pêl-droed Lerpwl. O gerdded allan o'r tŷ heibio rhif 3, 'roeddech yn y fynedfa i'r Kop! Bellach, mae'r tai yna wedi llwyr ddiflannu a'u llyncu gan y Clwb. Mwy o fonws byth oedd bod un o chwaraewyr ifanc Lerpwl, Albanwr o'r enw Willy Fern yn aros yn yr un tŷ. 'Doedd o ddim yn hoffi Ian St John o gwbl, gan ei fod yn credu bod hwnnw yn ei gadw allan o'r tîm cyntaf.

Un stori ddigri am Ian St John oedd am arwydd tu allan i eglwys: *"What would happen if Jesus Christ came to Liverpool?"* 'Roedd rhyw wag wedi ychwanegu *"He'd play St John at inside left!"*. Un aelod o'r tîm cyntaf fyddai'n galw i weld Willy oedd Tommy Leishman, yr hanerwr chwith. Ta waeth bu hiraeth Willy yn drech na fo ac aeth i weld y rheolwr, Bill Shankly i drafod y mater. Cafodd Willy ei siomi'n fawr pan ddywedodd Shankly wrtho, *"Scotland sfinks!"* a dychwelodd i'r Alban i chwarae i Hamilton Academicals! Ar ôl te byddai criw o chwaraewyr ifanc Lerpwl yn ymgynnull am gêm yn Stanley Park a thrwy Willy deuthum i adnabod Gordon Wallace oedd yn chwaraewr pur dda ond iddo gael nifer o anafiadau a Monty McLaren oedd yn un o bedwar o frodyr oedd yn gôl-geidwaid. Dave McLaren yn Sheffield Wednesday, oedd y mwyaf adnabyddus.

Byddai gŵr y llety yn cael bath bob bore Sadwrn a'i eiriau bob tro fyddai, *"I'm off to play with my boats."* Yn digwydd bod, 'roedd fy nosbarth yn adeiladu cychod bach hefo bocsys matsis, a bu'r demtasiwn yn ormod. Un bore Sadwrn tywalltwyd tipyn o ddŵr i'r bath a gosod rhyw bedair o'r cychod i arnofio. Yn anffodus, daeth y paent i ffwrdd oddi ar y cychod a 'lliwio'r bath! Wps!

Ar ddechrau'r ail flwyddyn symudais i 9 Arundel Avenue i rannu fflat gyda Gwynfor Roberts, Rhos Goch, Gwyn Jones o Ddwyran, a Trystan Turton. Dyna beth oedd profiad! 'Roedd yna wyth o ferched, yn Gymry Cymraeg yn byw mewn fflatiau eraill yn y tŷ. Gen i 'roedd y gwaith o siopa a hynny fel arfer yn y Coop yn Smithdown Road. Byddai Gwyn yn dod â sachaid datws o Ddwyran bob hyn a hyn, ac 'roedd gennym hen sosban sglodion a gadwodd i fynd i bob pryd am y flwyddyn. Gwyrth na wnaethom ddioddef stumogau drwg! Dim ond ar Ddydd Sadwrn byddai Gwyn yn cael brecwast- a hynny drwy ymweld â Chaffi Lewis's ar y llawr uchaf yn y siop yn y dref! Dros ben y wal gefn 'roedd mynwent anferth Toxteth Park.

'Roedd dylanwad y capeli ar lannau Afon Mersi yn gryf iawn bryd hynny. Mae gen i gopi o *'Y Bont'* cylchrawn Cymry Glannau Mersi, Chwefror 1963 ac yn hwnnw mae yna adroddiadau gan ddeunaw o gapeli Cymraeg, Anfield Road (M.C.), Balliol Road (B.), Bebington (E.F.), Douglas Road (M.C.), Earlsfield Road (B.), Edge Lane (M.C.), Eglwys y Drindod (M.C.), Heathfield Road (M.C.), Rake Lane (M.C.), Runcorn (M.C.), Salem, Penbedw (M.C.), Southport (M.C.), Spellow Lane (E.F.), Walton Park (M.C.), Stanley Road (M.C.), Waterloo (M.C.), Woodchurch Road (M.C.) a Woodlands (B.), Gwn fod yna rai eraill hefyd – Oakfield Road (E.F.) a Garston (M.C.) yn eu plith. 'Roedd gen i ddewis o dri capel o fewn pum munud i gerdded yno, sef Anfield Road, Douglas Road ac Oakfield Road. Yn rhyfeddol, 'roedd dau weinidog yn dod o'r un pentref â fi (Llanrug) sef Cledwyn Griffiths a Tudor Owen. I Anfield Road y penderfynais fynd, ond i gadw'r ddysgl yn wastad 'roedd Cymdeithas Lenyddol y ddau gapel wedi uno, a Gwilym Meredydd Jones yn sicrhau ein bod ni, Gymry ifanc, yn mynychu'r cyfarfodydd!

Yn yr un cylchgrawn 'roedd adroddiad bod Parkfield a Laird Street wedi uno yn mis Ionawr gyda'r Parchedig Tudor Owen yn Weinidog. Mewn rhan arall 'roeddynt yn croesawu aelodau o Eglwys Rock Ferry atynt.

## PÊL-DROED

Roedd ein cae pêl-droed ym Mharc Sefton a'r tîm yn chwarae yn rheolaidd yng Nghyngrair Ysgolion Sul Lerpwl, yn y drydedd adran. Gwaith llafurus bore Sadwrn, pan fyddai gennym gêm gartref, oedd gosod y goliau a marcio'r cae hefo llwch lli, ac ar ddiwedd pob gêm byddai'n rhaid tynnu'r goliau yn ddarnau a'u cadw'n saff at y tro nesaf! 'Doedd rhain ddim yn dasgau hawdd os byddai'n arllwys y glaw, neu pan oedd eira ac oerni'r gaeaf. Cymysglyd oedd ein



***Llun Tîm Pêl-droed Cymry Lerpwl 1962***
***Rhes gefn: Selwyn Jones, Roderick Owen, Myfyriwr 1, E.P. Roberts, Gareth Pritchard, Emrys Hughes.***
***Rhes flaen: Myfyriwr 2, John Partington Jones, Wyn Jones, Aled Pritchard a Gwynfor Roberts.***

canlyniadau – yn dibynnu faint o'r tîm fyddai wedi dychwelyd i Gymru ar y penwythnos. 'Doedd ambell reffari ddim yn hoffi ein clywed yn siarad Cymraeg hefo'n gilydd ac ai pethau'n o ddrwg gydag ambell un ohonynt! Credaf mai dim ond Roderick sydd ar ôl yn Lerpwl o'r criw erbyn hyn!

Dan nawdd y Clwb Cymraeg a Chymru Fydd, oedd yn cyfarfod yn Upper Parliament Street 'roedd y tîm yn cael ei redeg ac 'roedd y fan honno yn gyrchfan i nifer fawr o Gymry Cymraeg – y rhan helaethaf yn athrawon a nyrsus. Nos Sul, mae'n debyg oedd y mwyaf poblogaidd gyda chanu emynau yn dechrau am 9yh. Beti Williams fyddai meistres y piano fel arfer, a Roderick Owen neu Alan Morris yn arwain. Hefyd, ar nos Sadyrnau cynhelid dawnsiau o bryd i'w gilydd ac yno dechreuais ganlyn y ferch a ddaeth yn wraig i mi am dros hanner can mlynedd ar ôl ei danfon i'w fflat o un o'r dawnsiau hyn!

## YR URDD

'Roedd sawl Aelwyd ar lannau Mersi bryd hynny, ond y ddwy a gofiaf i yw Aelwyd Anfield oedd yn cyfarfod yn Ysgoldy Oakfield Road ac Aelwyd y De oedd yn cyfarfod yn Ysgoldy Capel y Drindod, Princes Road. Cynhelid cyfarfodydd diddorol ac 'roedd gennym Barti Noson Lawen yn Aelwyd Anfield oedd yn mynd o gwmpas i ddiddori cymdeithasau ar ddwy ochr yr afon. Cofiaf y delynores amryddawn o Gaernarfon yn wreiddiol, Doris Ann Rowlands, yn ein diddori un noson a finnau'n cael y dasg o gario'r delyn nôl a blaen i'w chartref yng ngogledd y ddinas mewn hen fan a brynais am £150 ar fy ail flwyddyn! Tipyn o lanast fu honno gan iddi dorri i lawr mewn sawl lle yn y ddinas gan gynnwys Twnnel Mersi! 'Roedd gen i 7 'set' o oleuadau traffig i'w croesi ar y ffordd i'r ysgol ac os byddai'r injan yn methu, rhaid fyddai, oherwydd nam ar y 'starter' agor y 'bonnet' a'i ryddhau hefo sbaner! Gallwch ddychmygu'r helyntion gyda gyrrwyr diamynedd eraill yn methu pasio!

Yn sgîl yr Aelwyd cynhaliwyd Cyngerdd Mawreddog yn Eglwys y Drindod gan Aelwydydd y Glannau ar Dachwedd 3ydd, 1962, gyda Margaret Lewis Jones, Llanbrynmair, yn wraig wâdd. Bum yn ddigon ffodus i gael cymryd rhan yn cyflwyno un o adroddiadau'r 'Co Bach' oedd yn boblogaidd bryd hynny. Rhai eraill oedd yn cymryd rhan oedd Menai Roberts, Keith Ellis, Peggy Quale, Ann Williams ac Alwyn Jones.

Ac o sôn am Alwyn, 'roedd o'n awyddus iawn i gystadlu 'Canu Cerdd Dant' mewn cyfres radio 'Sêr y Siroedd' oedd yn boblogaidd bryd hynny. Perswadwyd mam Alwyn (gwraig y Parch. W. D. Jones, Edge Lane) i godi parti yn ei erbyn. Cofiaf mai *'O tyn y gorchudd yn y mynydd hyn'* oedd ein cân ni, ond 'doedd hi ddim yn gystadleuaeth a dweud y gwir, a llwyddodd Alwyn i fynd drwodd i'r rownd nesaf yn hawdd!

'Roedd yr Aelwydydd hefyd yn gyfrifol am lwyfannu drama yn Theatr y Crane bob blwyddyn ac yn Rhagfyr, 1962, buom yn perfformio 'Cyfyng – Gyngor' drama dair act go heriol gan Huw Lloyd Edwards gydag E. Alwyn Hughes yn cynhyrchu. Tydi pethau yn newid!- tri swllt a chwe cheiniog oedd pris tocyn! Rhan yr hen ŵr, Dr Morris, gefais i, a'r actorion eraill oedd Ann Williams (Waterloo), Selwyn Jones, Gwynfor Roberts, Gwyn Jones, Ann Roberts a Margaret Thomas. Yn ddiweddarach cawsom ein gwahodd i berffomio'r ddrama yn yr Wyddgrug.

Yn 1965, penderfynwyd ceisio codi arian tuag at Eglwys Heathfield Road drwy gynnal noson o ddramau Wil Sam. Y ddwy a ddewiswyd oedd 'Y Dyn Codi Pwysau' a 'Y Gadair Olwyn' gyda Humphrey Wyn Jones yn cynhyrchu un a Roderick Owen yn cynhyrchu'r llall. 'Roedd Emrys Hughes (Cwm y Glo gynt) yn un defrydol ar gyfer rhan y dyn codi pwysau!

Yna, trefnodd yr Aelwydydd gystadleuaeth dramau un act yn Theatr y Crane a phenderfynodd Roderick y buasem yn cystadlu gyda'r 'Gadair Olwyn'. Morris Jones, Hen Golwyn, un fu'n enwog gyda Theatr Garthewin oedd yn beirniadu. 'Roeddwn i'n eithaf hyderus fel yr hen ŵr yn y gadair olwyn gan nad oedd gen i air i'w ddweud – dim ond gwneud sŵn! Ond, Ow! Pan ddaeth y feirniadaeth, dyma Morris Jones yn dweud mai nid dyna'r math o sŵn fyddai hen ŵr yn ei wneud! Dyna ddiwedd fy ngyrfa fel actor!

Un orchwyl fyddai'n digwydd yn aml oedd ymweld â'r gwahanol ysbytai. Byddai Mam yn anfon llythyrau i ddweud bod hwn a hwn, neu hon a hon o Lanrug a'r cyffiniau yn un o ysbytai Lerpwl - y Royal oedd yr un fwyaf 'poblogaidd'. Wrth gwrs, rhaid cofio bod nifer fawr o nyrsus o Gymru yn gweithio yn yr ysbytai bryd hynny, ond fe ddywedwn i mai nyrsus Ysbyty Alder Hey oedd y rhai mwyaf cefnogol i'r cymdeithasau Cymraeg (a'r tîm pêl-droed).

Ar ôl priodi yn 1964 dyma symud i fflat yn Queens Drive, Mossley Hill, drws nesaf ond un i Alun a Ceri Roberts a'u plant, Elizabeth, Sian a Gareth ('doedd Marian heb ei geni bryd hynny). Y Bedyddwyr oedd biau'r tŷ, wedi ei adael iddynt mewn ewyllys ar gyfer cenhadon oedd yn dychwelyd am seibiant o wledydd pell. Gan nad oedd cenhadon ei angen bryd hynny, cawsom gartref dros dro. Ond daeth stori drist yn fuan wedi i ni gyrraedd. 'Roedd teulu y wraig oedd yn y fflat arall yn ymfudo i Awstralia a hithau yn symud i'w tŷ hwy yn Allerton. Yn fuan wedi iddi symud, a chyn i'w theulu adael Lerpwl, cafodd ei llofruddio. Arestiwyd ei nai oedd rhyw un ar bymtheg oed a bu raid iddo sefyll ei brawf. Rose Heilborn oedd yn ei amddiffyn ac fe'i cafwyd yn ddi-euog.

Yn 1965, bu cryn ddathlu yn Lerpwl adeg canmlwyddiant y Mimosa yn hwylio o'r porthladdl i Batagonia gyda nifer o bobl wedi gwisgo dillad o'r oes o'r blaen ar gyfer noson o wledda a chyngerdd ar y 'Royal Iris'.


Yn Ionawr 1966, gwnaethom y penderfyniad i mi ymgeisio am swydd athro yn yr hen Sir Gaernarfon a bum yn ddigon ffodus i gael gwaith yn yr Adran Gymraeg, Ysgol Maelgwn, Cyffordd Llandudno, ar ôl gwyliau'r Pasg, gyda'r diweddar O. M. Roberts yn brifathro. Bellach, 'rydym wedi byw yn hapus yn Llandudno ers hanner can mlynedd, ond yn parhau i gofio am y cychwyn rhagorol a gawsom i'n gyrfaoedd yn Lerpwl.

Ond, daeth tipyn o sioc wrth gasglu'r atgofion hyn! Gweld bod cysylltiadau rhan o'm teulu hefo Lerpwl yn ymestyn dros 150 o flynyddoedd, cyn hyd yn oed i'r Mimosa adael y porthladd! Digwyddais ddod ar draws tystysgrif priodas fy hen daid a hen nain a briodwyd ar y 30ain o Awst, 1872, a gweld mai yn Eglwys St, David's, Lerpwl, yr unwyd Capten Hugh Humphreys a Catherine Hughes. Capten llong oedd fy hen, hen, daid hefyd (William Humphreys) yn ôl y dystysgrif. Rhaid wedyn oedd chwilio am hanes Eglwys St. David's. Adeiladwyd hi yn Brownlow Hill yn 1827 a hi oedd y gyntaf i gael ei chodi yn Lloegr (gan Eglwys Lloegr) i gynnal gwasanaethau Cymraeg. Caewyd hi yn 1910 er mwyn codi estyniad i Westy'r Adelphi, a chodwyd eglwys newydd yn Hampstead Road, Parc Newsham. Gwelwch, felly, mai dim ond megis dechrau 'rydw i wrth geisio darganfod mwy am fy nghysylltiadau â'r ddinas!

Noveber issue_Layout 1 01/12/2016 11:36 Page 13

# SIALENS I'N DIWINYDDIAETH

Adolygiad ar Richard W. Miller (Golygydd), *Suffering and the Christian Life*, clawr meddal, tt.3-152, ISBN: 9781626980136, Mawrth 2013, Pris 14.99, Orbis Books/Alban Books




Chwe ysgrif gryno gan ysgolheigion o'r Eglwys Babyddol o dan olygyddiaeth yr Athro Richard W. Miller o Brifysgol Creighton, Omaha, Nebraska yw hanfod y gyfrol hon. Dyma lyfr ar gyfer cenhadwr y pulpud gan fod pob un o'r cyfranwyr yn trafod o ddifrif yr Ysgrythurau yng ngoleuni broblem oesol. Dioddefaint yw'r thema a drafodir. Codir llu o gwestiynau: Pam ein bod yn dioddef? Lle mae Duw yn ein dioddefaint? Pam fod Duw yn caniatáu i bobl dda dioddef a phobl ddrwg gael bywyd esmwyth? Clywsom hyn filoedd o weithiau.

Rhennir y gyfrol yn ddwy ran. Yn yr adran gyntaf seilir y cyfan ar y Beibl. Canmolaf yr ysgrif gyntaf o eiddo Daniel J. Harrington o Gymdeithas yr Iesu. Trafodir ganddo Dioddefaint yn yr Hen Destament a'r Salmau (fel Salm 22), dirgelwch dioddefaint, dioddefaint sy'n iachau a'r atebiad eschatolegol. Yn yr ail ysgrif ceir ymgais un arall o Gymdeithas yr Iesu, i drin y tro hwn dysgeidiaeth y Testament Newydd ar ddioddefaint yr Iesu a dioddefaint ei ddisgyblion. Yn y trydydd draethawd caiff yr Apostol Paul ddod o dan ysbienddrych; tra y mae Dr Susan Calef yn edrych ar Ddioddefaint y Disgyblion yn Efengyl Marc. Yn yr ail adran cawn ragor o erthyglau sy'n edrych ar y profiad o ddioddefaint yn y bywyd Cristnogol a cheir trafodaeth hynod o fuddiol gan y Golygydd, Michael J. Himes ar Ddioddefaint yr Iesu, ac Elizabeth A Dreyer ar Ddioddefaint yn y Bywyd Cristnogol ac yn ein Profiad.

Y mae'n amlwg fod y gyfrol hon yn berthnasol dros ben, ac yn dweud yn glir wrthym na allwn ddianc rhag dioddefaint corfforol, meddyliol, ysbrydol, emosiynol os ydym yn ganlynwyr Iesu Grist. Geilw ef arnom i godi'r Groes yn gyson a'i chyfrif hi'n goron. Llwybr anodd, caregog yw'r llwybr a gymerodd yr Iesu, ac felly y mae i bob un sydd yn ei ddilyn. Llwybr hawdd yw llwybr yr anghredadun, y drwgweithredwr, yr euog ddyn, sy'n croesawu drygioni i'w fywyd. Y bywyd da yw'r bywyd dirdynnol anodd. O leiaf felly y dywed y diwinyddion hyn, ac onid dyna pam fod cymaint o'r Cymry wedi troi eu cefnau ar y capeli?

**D. Ben Rees**

## *Cystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl*



***Tîm John Lyons yng nghystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl yng Nghlwb Woolton***

## ATEBION TUDALEN CRAFU PEN

**PWY YDYNT:**

1. SIMON PEDR; 2, MAIR MAGDALEN; 3, DYFNALLT; 4, GARETH BALE; 5, DEWI SANT

**CANEUON CYMRU**

1. HOB Y DERI DANDO; 2, Y MOCHYN DU; 3, HYWEL A BLODWEN; 4, DAFYDD Y GARREG WEN; 5, CODIAD YR EHEDYDD.

**BLED'R YDYM**

1. BAE COLWYN; 2, LLANWRTYD; 3, DEGANWY; 4, ABERDARON; 5, LLANDUDNO

**GWNEUD GEIRIAU**

DARGANFOD: Adar, Adnod, Anad, Afan, Anaf, Afon, Angor, Angorfa, Anfad, Anafod, Angof, Argan, Agor, Arfod, Arfog, Araf, Arnaf, Danad, Darn, Dafad, Dafn, Dagr, Darfod, Drag, Ford, Garan, Gran, Godard, Nard, Organ.

**GAIR AM AIR**

TRO, TROED, OED, OEDI, TROEDIO, DIOD, DIODI, DIOG, DIOGEL, GELYN, YNO, NOE, OEN, ENW, NWY, NWYD, YDLAN, LAN

Noveber issue_Layout 1 01/12/2016 11:36 Page 14

# PRIODAS YN LLUNDAIN



Kate a Dafydd Rees

(gweler adroddiad Eglwys Bethel)



Cymry Lerpwl a'i ffrindiau yn y wledd



Y gwasanaeth hyfryd yng Nghapel Jewin gyda Dr. D. Ben Rees yn gwasanaethu

---




Ymddiriedolwyr Cronfa Dewi Sant, Lerpwl - John Lyons (Trysorydd); Archddiacon Ricky Panter (Cadeirydd) a Dr D. Ben Rees (Ysgrifennydd)

**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

CYMRAEG

Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.

Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484